
# Cyfleoedd Buddsoddi

DINAS **CASNEWYDD**



City of NEWPORT Dinas CASNEWYDD

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD



Mae lleoliad Casnewydd, ei hunaniaeth a'i hyder cynyddol yn gosod y seiliau iddi wireddu ei photensial economaidd. Mae gan y ddinas hanes amrywiol i ymfalchïo ynddo ac rydym am greu dyfodol sy'n parchu'r dreftadaeth hon, tra'n cydnabod y bydd twf yn seiliedig ar sgiliau gwahanol iawn.

Mae partneriaethau effeithiol wrth wraidd ein dull a byddwn yn gweithio'n gadarnhaol gyda buddsoddwyr i droi cynlluniau uchelgeisiol yn realiti, er mwyn sicrhau bod ein cymunedau'n gweld budd twf economaidd.

# CASNEWYDD:
# Y FFEITHIAU A'R FFIGURAU

Mae Casnewydd ynghanol un o raglenni adfywio mwyaf y DU. Mae prosiectau hyd yn hyn wedi dod â thrawsnewidiad enfawr gan greu cyfleoedd busnes sylweddol ac ennill lle i'r ddinas fel un o'r canolfannau arweiniol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Agorwyd amwynder hirddisgwyliedig Friars Walk ym mis Tachwedd 2015, gan ddod â brandiau manwerthu a hamdden blaenllaw i ganol y ddinas. Ers i Ganolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (CGRC) agor yn 2019, mae wedi ennill enw da cenedlaethol a rhyngwladol yn fuan iawn am ansawdd ei chyfleusterau, ei gwasanaeth a'i lletygarwch. Dyma'r unig leoliad o'i faint a'i fath i'r gorllewin o Lundain ac i'r de o Birmingham, ac mae wedi bod yn sbardun i wella enw da ehangach Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynnal digwyddiadau. Cafodd yr enw da hwn ei ddatblygu yn flaenorol gan dîm profiadol y lleoliad, a reolodd ddigwyddiadau megis Uwchgynhadledd NATO a'r Cwpan Ryder yng Ngwesty'r Celtic Manor.

Mae Casnewydd yn cefnogi rhai o glystyrau a chryfderau sectoraidd gorau'r DU (a Chymru), gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, gweithgynhyrchu uwch a thechnoleg ariannol Er enghraifft, amcangyfrifir bod y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd wedi cefnogi £180m o werth ychwanegol crynswth yn 2019, ac mae mwy na 95% o gynhyrchion sy'n cael eu gweithgynhyrchu wedi'u hanelu at y farchnad allforion. Mae arweinwyr rhyngwladol ym meysydd technoleg, gweithgynhyrchu, dosbarthu, gwasanaethau ariannol a sefydliadau'r sector cyhoeddus i'w cael yng Nghasnewydd, wedi eu denu gan leoliad arbennig y ddinas a'i gweithlu mawr - gan gynnwys Gocompare.com, Airbus, Grŵp Bancio Lloyds, Vantage, SPTS, IQE, Amazon, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Eiddo Deallusol.

Gyda buddsoddiadau yn yr arfaeth, busnesau arloesol sy'n tyfu'n fawr a safleoedd sy'n barod i'w datblygu, mae Casnewydd yn barod i wireddu ei photensial cenedlaethol a rhyngwladol.



# CASNEWYDD:
# DINAS GYSYLLTIEDIG

Mae Casnewydd yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd, rheilffyrdd, môr ac awyr ardderchog sy'n ei gwneud yn lleoliad busnes a buddsoddi delfrydol. Mae Llundain 90 munud i ffwrdd yn unig ar y trên a 120 munud mewn car. Bydd trydaneiddio'n lleihau amseroedd teithio ar y rheilffyrdd ac mae dileu tollau Pont Hafren wedi gwella teithiau ar y ffordd yn fawr. Bydd hyn yn gwella rhagolygon y ddinas hyd yn oed yn fwy.

CYSYLLTIADAU RHEILFFORDD O GASNEWYDD:
**CAERDYDD:** 15 MUNUD
**BRYSTE:** 20 MUNUD
**LLUNDAIN:** 90 MUNUD
**MANCEINION:** 175 MUNUD

**MEYSYDD AWYR RHYNGWLADOL:**
MAES AWYR CAERDYDD: 35 MUNUD
MAES AWYR BRYSTE: 45 MUNUD
MAES AWYR HEATHROW: 2 AWR

AMSER GYRRU O GASNEWYDD:
**CAERDYDD:** 20 MUNUD
**BRYSTE:** 30 MUNUD
**BIRMINGHAM:** 1 AWR 30
**LLUNDAIN:** 2 AWR

MAE
**PORTHLADD DWFN**
CASNEWYDD YN GALLU CYMRYD LLONGAU HYD AT
**40,000 O DUNELLI**

MAE CYSYLLTIAD **BAND-EANG CYFLYM IAWN A THRA CHYFLYM** HYD AT
**100** MBPS
AR GAEL AR GYFER O'R HOLL SAFLEOEDD
**97%**
Adroddiad Cenhedloedd Cysylltiedig llyw.cymru 2019

Mae Casnewydd yn cynnig cysylltedd ffibr llawn Superfast drwy fuddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd yn ei gysylltiadau band eang a digidol.







Gorsaf Reilffordd Casnewydd






# RYDYM YN GARTREF I'R CANLYNOL:

Mae Casnewydd yn gwireddu ei dyhead i fod yn hyb digidol cenedlaethol

- Yr Academi Seiber-Ddiogelwch Genedlaethol (NCSA) - y gyntaf o'i math yng Nghymru, ar gampws Prifysgol De Cymru ynghanol y ddinas.
- TESTIA, sy'n hyfforddi peirianwyr â sgiliau uchel ar gyfer y diwydiant awyrofod.
- Mae Sefydliad Alacrity yn rhoi cyfle i entrepreneuriaid ifanc i greu busnesau cynaliadwy yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu.



International Convention Centre Wales

# DINAS ER TWF ECONOMAIDD A LLWYDDIANT


Mae swyddfeydd pwrpasol newydd wedi'u hadeiladu yng nghanol y ddinas ac ar barciau busnes gerllaw traffordd yr M4. Mae safleoedd newydd wedi'u datblygu ar gyfer defnydd masnachol a diwydiannol.

- Clwstwr sefydledig o fusnesau technoleg
- Sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol sy'n tyfu
- Cysylltiadau trafnidiaeth gwych ar gyfer gweithrediadau dosbarthu a logisteg
- Hygyrchedd a lleoliad gwych ar gyfer yr M4 - y porth i Gymru
- Gweithlu mawr llawn cymhelliant
- Parciau busnes o safon uchel mewn lleoliadau gwych

Mae cartrefi newydd wedi'u creu, gan gynnwys datblygiadau amgylcheddol arobryn a fflatiau moethus ar lan yr afon yn agos at ganol y ddinas.

- Mae gan Gasnewydd gyflenwad tir ar gyfer tai am 6 blynedd
- Prisiau tai sy'n cynyddu'n raddol
- sy'n 7% yn uwch na chyfartaledd Cymru – sy'n dyst i'w phoblogrwydd fel lle i fyw yn ogystal â gweithio
- Mae datblygiadau tai mawr ledled Casnewydd wedi cyfrannu at record newydd o ran ffigurau cwblhau anheddau yn y blynyddoedd diwethaf

## IQE



Creu prosiect clwstwr lled-ddargludyddion cyntaf y byd
- Buddsoddiad £40 miliwn ar gyfer ffatri lled-ddargludyddion cyfansawdd IQE
- 5,000 o swyddi dros y 5 mlynedd nesaf

"Sicrhawyd cyfleuster newydd IQE yng Nghasnewydd mewn partneriaeth â Prifddinas-ranbarth Caerdydd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r lleoliad yn rhoi mynediad hawdd ar gyfer masnach ryngwladol yn ein diwydiant byd-eang ac mae'n agos at arbenigedd academaidd blaenllaw, sefydliadau ymchwil ddiwydiannol, cyfleusterau prototeipio ac, yn unigryw, grwp sefydledig o fusnesau sy'n ymwneud â lled-ddargludyddion.

Mae ein sector diwydiant eisoes yn darparu cyflogaeth o safon i ryw 1,500 o bobl ar draws y rhanbarth ond disgwylir i hyn gynyddu i ryw 5,000 o swyddi dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn credu bod y rhanbarth yn amgylchedd delfrydol i'n busnes a'n diwydiant dyfu'n ganolfan fyd-eang bwysig ar gyfer ymchwil lled-ddargludyddion uwch, prototeipio, cynhyrchu ac arbenigedd dylunio."

Dr Drew Nelson OBE,
Llywydd, IQE plc




Dros y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o gartrefi newydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghasnewydd nag yn unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru (gan ddangos hyder yng Nghasnewydd).

# DINAS LEWYRCHUS - HAMDDEN, CHWARAEON AC ANSAWDD BYWYD

Mae Casnewydd yn falch o ddweud bod ganddi:

- Ardaloedd gwledig ac arfordirol hardd o'i chwmpas
- Amwynderau dinesig
- Ansawdd bywyd ardderchog
- Cydbwysedd perffaith rhwng bywyd a gwaith


Geraint Thomas National Velodrome of Wales

Mae llwybrau cerdded a beicio newydd yn cysylltu'r ddinas a'i chyffiniau gwledig. Mae chwaraewyr a hyfforddwyr pêl-droed gorau Cymru ynghyd â phobl ifanc frwd yn hogi eu sgiliau yn y Ganolfan Datblygu Pêl-droed Genedlaethol.

Mae cystadleuwyr Olympaidd a Pharalympaidd wedi hyfforddi yn Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas yn y ddinas, ac mae cefnogwyr a chwaraewyr nawr yn mwynhau'r cyfleusterau newydd yn stadiwm rygbi a phêl-droed Rodney Parade.






# DINAS SY'N DYSGU


University of South Wales - City Campus

Mae buddsoddiad mewn addysg, sgiliau a mentergarwch wedi bod wrth wraidd adfywiad Casnewydd. Mae gennym bellach gampws prifysgol o safon yng nghanol y ddinas sy'n rhan o Brifysgol De Cymru.

Mae'r brifysgol yn rhan allweddol o dwf economaidd de-ddwyrain Cymru. Gyda throsiant o £190m mae'r brifysgol yn bartner pwysig i Lywodraeth y DU, diwydiant, Llywodraeth Cymru ac ystod eang o fusnesau. Un o gryfderau mawr Prifysgol De Cymru yw rhoi addysg sy'n berthnasol i ddiwydiant ac ymchwil sy'n berthnasol i fywyd pob dydd.

## Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL



"Pan symudodd yr ONS ei waith ystadegau economaidd o Lundain i Gasnewydd, penderfynais fentro a symud gyda'r gwaith, gan fod yr amser yn iawn o ystyried fy amgylchiadau personol. Fe wnes i ymgartrefu yn syth a dydw i erioed wedi difaru unwaith. Un o fy mhenderfyniadau gorau."

Pete Lee , Dirprwy Gyfarwyddwr
Adran Masnach Fyd-eang a Buddsoddi

Office for National Statistics

# BETH SY'N NEWYDD YNG NGHASNEWYDD

Nod Cwr Gwybodaeth Casnewydd (CGC) – cydweithrediad cyffrous rhwng Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) a Choleg Gwent (CG) - yw creu canolfan fywiog i fyfyrwyr yng nghanol Casnewydd, gan ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach.

Bydd y CGC mewn safle gwych yng nghanol y ddinas, o fewn tafliad carreg i Gampws Casnewydd Prifysgol De Cymru, a bydd yn cynnig manteision sylweddol i Gasnewydd, Cymru a'r DU yn gyfan. Bydd y lleoliad yn gwella mynediad i addysg ledled y ddinas, a bydd y CGC gerllaw cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy gwych. Bydd ei greu yn helpu i roi hwb i'r economi yng Nghasnewydd, drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant cysylltiedig ar nwyddau a gwasanaethau lleol yng nghanol dinas Casnewydd - tua 2,000 o ddysgwyr a 200 o staff bob dydd. Bydd canlyniadau addysgol yn gwella, drwy ddod ag elfennau o'r cwricwlwm at ei gilydd mewn adeilad nodedig, gan ddarparu cyfleusterau ac offer hyfforddi modern, a sefydlu 'llwybrau dysgu' di-dor i Addysg Uwch.

Bydd yn cynnig rôl gadarnhaol yn y gymuned, drwy annog cydlyniant cymunedol – gan gefnogi'r rhai sy'n ddibynnol ar addysg bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) a ddarperir yn lleol am resymau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd a darparu cyfleoedd newydd i'r rhai sy'n dychwelyd i astudio fel myfyrwyr aeddfed. Yn ogystal, bydd yn gwella adnoddau cymunedol – gan gynnig mynediad at ddysgu a chyfoethogi ar gyfer pob oedran; ac fel Canolfan i'r gymuned leol ar gyfer addysg ran-amser, addysg oedolion, sgiliau cyflogadwyedd a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

Yn y pen draw, bydd CGC yn gwella seilwaith ffisegol canol dinas Casnewydd – drwy drawsnewidiad parhaus, gan gefnogi datblygiad Prifddinas-Ranbarth ehangach ac adeiladu ar fomentwm ac effaith adfywio ardal siopa Friar's Walk.

Bydd CGC yn mynd i'r afael â heriau anodd sy'n wynebu Addysg Bellach yn y rhanbarth, drwy fynd i'r afael â phrinder sgiliau rhanbarthol mewn TGCh, adeiladu, gweithgynhyrchu uwch/peirianneg, iechyd a gofal a chyllid. Bydd yn uno elfennau o addysg

# CWR GWYBODAETH CASNEWYDD (CGC)

ôl-16 ac yn darparu cyfleusterau Addysg Bellach hygyrch a chydlynol, gan annog dilyniant o AB i AU. Bydd ei seilwaith a'i wasanaethau hyblyg yn sicrhau y bydd yn gallu ymateb i anghenion sy'n newid, a thwf sectorau busnes sy'n bwysig yn rhanbarthol, fel seiberddiogelwch a rheoli lletygarwch.

Mae ymchwil economaidd diweddar yn dangos y manteision economaidd cadarnhaol iawn sy'n cael eu cynnig gan golegau Addysg Bellach yng Nghymru. Manteision i ddysgwyr, i'r gymdeithas ac i drethdalwyr.





# MARCHNAD CASNEWYDD








**Dechreuodd y cysyniad newydd ar gyfer Marchnad Casnewydd – marchnad dan do fwyaf Ewrop – yn 2018 ac fe'i datblygwyd gan Loft Co.**

Roedd angen bywyd newydd ar Farchnad Casnewydd ac ar ôl 4 blynedd o waith adeiladu, ym mis Mawrth 2022, ail-agorodd wedi gwaith adnewyddu gwerth £12 miliwn. Gyda chymysgedd o'r hen a'r newydd, mae'r strwythur Fictoraidd trawiadol hwn, sydd wedi cadw bron i bob un o'i nodweddion hanesyddol trawiadol, yn lle perffaith i archwilio, cyfarfod, bwyta, yfed a siopa. Mae'r farchnad arobryn bellach yn gartref i 35 o unedau manwerthu bach, 10 o werthwyr bwyd stryd a 75 o swyddfeydd, yn ogystal â gofod digwyddiadau i 250 o bobl a bariau niferus.

Nawr mae Marchnad Casnewydd yn ymfalchïo mai hi yw canolbwynt Canol Dinas Casnewydd, ar gyfer gofod swyddfa, busnesau, manwerthu i bobl siopa'n lleol, a lleoliad newydd sbon ar gyfer digwyddiadau. Yn ogystal, mae'n cynnig cyfleoedd i gymunedau, a chynlluniau wedi'u harwain gan y gymuned, gyda digwyddiadau am ddim ac adloniant drwy'r flwyddyn.



# CANOLFAN GYNADLEDDA RYNGWLADOL CYMRU (CGRC)






Canolfan Gynadleddа Ryngwladol Cymru (CGRC) yw lleoliad digwyddiadau mwyaf newydd a chyffrous y DU.

Mae cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys neuadd arddangos di-biler 4,000 metr sgwâr, theatr awditoriwm 1,500 o seddi, ystafelloedd cyfarfod hyblyg a digonedd o fannau i gael cyfarfodydd grŵp anffurfiol a rhwydweithio, oll mewn golau dydd naturiol.

Wedi'i adeiladu fel prosiect menter gwerth £84m ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae'r lleoliad yn hygyrch iawn, dafliad carreg o Gyffordd 24 yr M4 yng Nghasnewydd. Ond mae wedi'i lleoli mewn coetir hynafol gyda ffenestri o'r llawr i'r nenfwd yn yr ystafelloedd cyfarfod, gyda lle i anadlu yn yr awyr agored sy'n gwneud y mwyaf o'r amgylchedd trawiadol.

Dim ond yn dilyn ymgynghoriad agos gyda grwpiau ffocws o bob rhan o'r sector cyfarfodydd a digwyddiadau y dechreuodd cynllunio dylunio, sy'n golygu bod yr holl gyfleusterau wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer anghenion defnyddwyr.

Wedi'i hagor yn swyddogol ym mis Medi 2019, mae'r gofod hyblyg yn cynnig amrywiaeth enfawr o gyfarfodydd a digwyddiadau o gonfensiynau ac arddangosfeydd traddodiadol ar gyfer y sectorau corfforaethol a chymdeithasau, i gyngherddau, sioeau defnyddwyr, cynulleidfaoedd gyda phrofiadau, a chiniawau mawreddog i gynadleddau bach a chanolig, seminarau a chyfarfodydd bwrdd.

Daeth Llywodraeth y DU â'i Chynhadledd CyberUK i CGR Cymru yn 2022 a chynhaliodd Coleg Brenhinol y Bydwragedd eu cynhadledd flynyddol, gan ddod â 1,400 o gynrychiolwyr a mwy na £1.3m o fudd economaidd i Dde Cymru.

Ers i CGR Cymru agor, mae wedi ennill enw da cenedlaethol a rhyngwladol yn gyflym iawn am ansawdd ei gyfleusterau, ei wasanaeth a'i letygarwch. Fel yr unig leoliad o'i faint a'i fath i'r gorllewin o Lundain ac i'r de o Birmingham, mae CGR Cymru hefyd wedi bod yn sbardun i wella enw da ehangach Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynnal digwyddiadau. Cafodd yr enw da hwn ei ddatblygu yn flaenorol gan dîm profiadol y lleoliad, a reolodd ddigwyddiadau megis Uwchgynhadledd NATO a Chwpan Ryder yng Ngwesty'r Celtic Manor.

Roedd cynaliadwyedd yn flaenoriaeth uchel wrth ddylunio ac adeiladu'r lleoliad sydd wedi ymrwymo i gynrychioli 'arfer gorau' ym mhob maes cyflenwi gwasanaethau cynaliadwy. Mae CGR Cymru wedi derbyn statws Lefel 3 y Ddraig Werdd gan Lywodraeth Cymru a'r Safon Allwedd Gwyrdd, yr ecolabel byd-eang mwyaf a ddatblygwyd gan y Ffederasiwn Dros Addysg Amgylcheddol.



# PWY SYDD YMA?

"Mae adran SPTS KLA yn wneuthurwr offer cyfalaf ar gyfer y diwydiant lled-ddargludyddion byd-eang ac mae ein prif safle ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu yng Nghasnewydd. Mae ein cwsmeriaid yn defnyddio ein cyfarpar i wneud lled-ddargludyddion, systemau micro-drydanfecanyddol (dyfeisiau MEMS) a synwyryddion sy'n rhan o bron pob ffôn clyfar yn y byd ond a ddefnyddir hefyd i bweru ffermydd gwynt, i alluogi cerbydau clyfar a thrydanol, ac i ddarparu cysylltedd sydd ar gael bob amser drwy Bluetooth, Wi-Fi a chysylltiadau symudol, i enwi dim ond rhai.

Mae ein lleoliad yng Nghasnewydd yn sicrhau bod cysylltiadau cludiant rhagorol ar gael i ni, sy'n hanfodol gan fod mwy na 98% o'n cynhyrchion yn cael eu hallforio. Casnewydd yw cartref ein pencadlys ers mwy nag 40 mlynedd ac ers 2018 rydym ni wedi gweithgynhyrchu ac allforio cyfarpar prosesu lled-dargludyddion gwerth mwy na £1.25 biliwn o Gasnewydd i gwsmeriaid ledled y byd.

Wrth i ni barhau i dyfu ein busnes a gweithredu ein cynlluniau i ehangu, mae'n hollbwysig cael mynediad i'r gweithlu â sgiliau uchel yn y rhanbarth yn ogystal â'r cysylltiadau â'r prifysgolion ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu cynhyrchion y genhedlaeth nesaf. Bydd y clwstwr lled-ddargludyddion yn y rhanbarth sy'n parhau i dyfu yn dod â chyfleoedd newydd ar gyfer KLA a'r economi leol – mae'n amser cyffrous i fod yma."

Dan Collins
Rheolwr Cyffredinol – Adran SPTS, KLA Corporation



Mae Construcciones y Auxiliar de Ferrocarriles (CAF) wedi buddsoddi £30m mewn ffatri newydd ym Mharc Busnes Celtic yng Nghasnewydd, gan greu hyd at 300 o swyddi newydd. Mae'r ffatri 46,000 metr sgwâr gerllaw'r orsaf drenau a'r cyfleuster parcio a theithio newydd arfaethedig yn Llanwern. Mae'r gwaith o adeiladu'r ffatri ym Mharc Busnes Celtic wedi'i gwblhau ac mae cynhyrchu trenau wedi dechrau a chafodd y trên cyntaf ei gwblhau yn haf 2019. Mae'r ffatri hon yn cynhyrchu trenau cyflym iawn, trenau disel a thrydan a thramiau ysgafn a gaiff eu cyflenwi i weithredwyr ledled y DU.

## CAF



"A ninnau'n ddatblygwyr yn Ne Cymru, roedden ni'n awyddus i weithio yng Nghasnewydd gan ein bod yn teimlo ei bod yn ddinas ar gynnydd. Rydym wedi cael croeso cynnes gan Gyngor Dinas Casnewydd sydd wedi bod yn gefnogol ac sy'n awyddus i hwyluso'r gwaith parhaus i adfywio canol y ddinas. Roedd y cyfle i gaffael Tŵr eiconig y Siartwyr, sef yr adeilad uchaf yng Nghasnewydd, yn gyfle gwych a bydd gwedd drawiadol i'n hailddatblygiad uchelgeisiol a fydd yn cynnwys swyddfeydd ac unedau manwerthu o'r radd flaenaf yn ogystal â'r gwesty 154 gwely."

Andrew Innes
Garrison Barclay Estates

## GWESTY MERCURE – CHARTIST TOWER



# PWY SYDD YMA?

Mae Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De Cymru, a elwir yn 'CSconnected', yn cefnogi dros 2600 o swyddi o werth uchel sy'n ymwneud ag ymchwil, datblygu, arloesi a gweithgynhyrchu cynhyrchion a gwasanaethau lled-ddargludyddion uwch. Mae buddsoddiad o dros £350M wedi bod mewn isadeiledd ers lansio gweledigaeth y Clwstwr yn 2015, ac mae £250M yn rhagor wedi'i neilltuo i brosiectau gweithgynhyrchu ac arloesi dros y 3 blynedd nesaf.

Lleolir calon y Clwstwr ym Mharc Imperial, Casnewydd; gartref i gyfleusterau gweithgynhyrchu cyfaint uchel o IQE Plc, cyflenwr deunyddiau lled-ddargludyddion uwch, y Ganolfan Arloesi 'Catapult' a ariennir gan Lywodraeth y DU, ac adeiladu cyfleuster gweithgynhyrchu ar raddfa fawr newydd gan y cwmni offer cyfalaf lled-ddargludyddion o'r Unol Daleithiau, KLA Inc.

Mae lled-ddargludyddion cyfansawdd wrth wraidd llawer o ddyfeisiau electronig rydyn ni'n eu defnyddio heddiw, ac maent yn mynd i chwarae rhan gynyddol bwysig ym maes technolegau'r genhedlaeth nesaf sydd eu hangen i ddarparu Sero Net, cyfathrebu uwch a gofal iechyd yn y dyfodol. Mae menter CSconnected yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i elwa o'r cyfle byd-eang hwn sy'n tyfu'n gyflym.

Wyn Meredith, Cyfarwyddwr
Compound Semiconductor Centre

Bydd Sefydliad Alacrity yn rhoi cyfle arbennig i entrepreneuriaid ifanc greu busnes cynaliadwy yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu.

Simon Gibson CBE, Prif Weithredwr
Wesley Clover Corporation

Bydd Tiny Rebel, sy'n ymfalchïo yn ei wreiddiau Casnewydd, yn parhau i fuddsoddi yn yr economi ffyniannus i wireddu ei lawn botensial. Mae'r dyfodol yn fywiog ac yn gyffrous i Gasnewydd gyda strategaeth fuddsoddi anferthol ar gyfer corfforaethau a BBaChau yn y ddinas.

Mae Casnewydd- trydedd ddinas fwyaf Cymru- yn parhau i ffynnu a thyfu ei phroffil gyda thrawsnewid sylweddol yn gyson gan greu cyfleoedd busnes newydd. Mae dyheadau dal yn uchel gyda busnesau arloesol yn ceisio ymgartrefu'n y ddinas yn barhaus.

Hannah Williams, Prif Swyddog Ariannol
Tiny Rebel

Mae bod yng Nghasnewydd wedi rhoi'r amser a'r lle i Ballet Cymru dyfu'n sefydliad celfyddydau aeddfed a blaengar sydd ag ôl troed cenedlaethol.

Er yr heriau, mae'r creadigrwydd a'r brwdfrydedd, yn enwedig gan y bobl ifanc yn y ddinas, yn ffynhonnell ysbrydoliaeth. Rydym yn edrych ymlaen at weithio yn y ddinas am flynyddoedd i ddod a'i helpu i wireddu ei photensial fel dinas fywiog ar gyfer y celfyddydau.

Darius James OBE, Cyfarwyddwr Artistig
Ballet Cymru

# DATBLYGIADAU AR Y GWEILL

| Enw | Maint | Perchnogaeth/ Hyrwyddwr | Statws Cynllunio |
|---|---|---|---|
| IQE – Imperial Park | 2.8 ha | IQE plc | Ailddatblygiad 300,000 troedfedd sgwâr ar gyfer gweithgynhyrchu wafferi lled-ddargludyddion cyfansawdd. |
| Tir Ehangu'r Brifysgol | 0.37ha | Sector Cyhoeddus | Safle a fwriedir ar gyfer canolfan hamdden newydd, wrth gampws Casnewydd Prifysgol De Cymru |
| Parc Busnes Celtic Way – Imperial Way | | Capita Real Estate & Infrastructure - ar ran KLA/SPTS | Cyfleuster gweithgynhyrchu, ymchwil, a datblygu pwrpasol ar gyfer busnes lled-ddargludyddion KLA/SPTS. |
| Y Siambrau Canolog | 0.02ha | Seren | Ailddatblygu adeilad rhestredig ar gyfer cynllun byw yng nghanol y ddinas gan greu 5 fflat. |
| Pentref Llanwern | 44 ha | Redrow | Safle ar gyfer 1,100 o gartrefi newydd ac ysgol gynradd newydd |
| Parc y Jiwbilî | 40 ha | Bellway, Taylor Wimpey, Barratt Homes | Ailddatblygu hen safle Alcan ar gyfer datblygiadau â defnydd cymysg gan gynnwys oddeutu 950 o unedau. Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ar y safle gyda thri chwmni adeiladu tai mawr yn codi'r tai newydd. |
| Glan Llyn | 193 ha | St Modwen gyda Bellway Homes | 4000 o gartrefi newydd yn ogystal â chyfleusterau manwerthu, hamdden a chymunedol. Mae dros 1000 o unedau wedi eu cwblhau erbyn hyn ar y safle. Mae'r ysgol gynradd eisoes wedi ei chodi a bydd ail ysgol gynradd yn cael ei chodi'n ddiweddarach yn y datblygiad |


Imperial Park









| Enw | Maint | Perchnogaeth/ Hyrwyddwr | Statws Cynllunio |
|---|---|---|---|
| Yr Hen Dref Dociau – East Dock Road | 13.9ha | Newport City Homes | Safle datblygiad defnydd cymysg ar gyfer 288 o unedau. Mae Seren wedi creu 45 o unedau ac mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn bwrw ymlaen gyda'i gynigion. |
| Parc Busnes St Modwen | 35.5ha | St Modwen | Parc Busnes sy'n rhan o safle adfywio Glan Llyn. Mae nifer o unedau cyflogaeth wedi eu cwblhau gyda lle i ddatblygu ymhellach. |
| Glebelands | 2.83ha | Pobl | Mae gwaith wedi cychwyn ar y datblygiad hwn ar lan yr afon. Mae'r safle wedi ei gymeradwyo ar gyfer 215 o gartrefi, gyda dros hanner yr unedau wedi eu cwblhau. |


Campws Newydd Coleg Gwent


Glan Llyn



Parc Busnes - St Modwen




# UWCHGYNLLUN CANOL Y DDINAS

# CYFLEOEDD DATBLYGU ALLWEDDOL

Mae cyfleoedd datblygu newydd ar gael yn y Ddinas ac rydym yn awyddus i ddefnyddio ein harbenigedd wrth gynorthwyo partneriaid newydd gyda syniadau a gweledigaeth ar gyfer creu rhagor o gyfoeth a ffyniant. Mae safleoedd sydd â'r capasiti i gynnwys amrywiaeth eang o ddatblygiadau at wahanol ddefnydd wedi eu rhestru mewn tabl yn hwyrach yn y prosbectws hwn.

**DROS 172 ha** CYFLOGAETH WEDI'I **DDYRANNU O DIR**

**DROS 31 ha** CYFLOGAETH NEWYDD **O DIR**

Cyngor Dinas Casnewydd

**Prif safleoedd datblygu**

1. Stryd Shaftesbury - Hen Safle Sainsbury's
2. Tŷ Admiral
3. Cwr Gwybodaeth Casnewydd
4. Rodney Parade
5. Marchnad Casnewydd

**Tirnodau allweddol**

6. Theatr Glan yr Afon
7. Friars Walk
8. Prifysgol

A. CGRC/Celtic Manor
B. St Modwen

# PORTH Y GOGLEDD, CASNEWYDD



**Wedi'i lleoli o amgylch gorsaf reilffordd Canol y Ddinas, mae ardal Porth y Gogledd yng Nghasnewydd yn prysur ddod yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddi ac adfywio.**

Mae buddsoddiad sylweddol eisoes ar y gweill; gyda'r gwaith adnewyddu gwerth miliynau o bunnoedd ar Farchnad Dan Do arobryn Casnewydd ac Arcêd y Farchnad, a gwaith seilwaith mawr - gan gynnwys pont droed newydd sy'n cysylltu Canol y Ddinas a 6,000 metr sgwâr o ofod swyddfa dechnolegol newydd Gradd A ar Mill Street. Mae'r sector dechnolegol a seiber yn sector fusnes gref ym Mhorth y Gogledd ac maent yn eistedd ochr yn ochr â'r Academi Feddalwedd Genedlaethol a'r Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Mae cyfleoedd ar gyfer gofod masnachol newydd a datblygiad trawsnewidiol yn bodoli ym Mhorth y Gogledd, ac mae'n manteisio ar Ddinas sy'n tyfu gyda chysylltedd rhagorol a chynnig llesiant rhagorol.

Gall y maes datblygu newydd hwn gynnig gofod masnachol hyblyg a fydd yn ymateb i'r galw cyfredol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i westy a gofod swyddfa/cyd-weithio newydd. Mae cyfle gwych hefyd i gael tai deiliadaeth gymysg, defnydd addysgol neu hamdden newydd - gan ganiatáu i fwy o bobl fyw, gweithio ac ymweld â chanol y ddinas. Mae rhan helaeth o Borth y Gogledd eisoes yn gweld trawsnewidiad sylweddol, gyda chysylltiadau teithio llesol newydd a phlannu i greu naws am le ac ymdeimlad o les.





## HYRWYDDWYR Y PROSIECT
Cyngor Dinas Casnewydd (CDC)

## GRADDFA
Cam cyntaf yr Uwchgynllun (yn cynnwys Cyswllt yr Orsaf a gwelliannau i'r ardal gyhoeddus) tua £20m. Ail gam y datblygiad masnachol tua £80m

## SECTOR
Defnydd cymysg – Swyddfeydd, Preswyl, Gwesty, Manwerthu, Hamdden

## LLEOLIAD
Dinas Casnewydd - gan gynnig cyfleoedd datblygu heb ei ail yng nghanol dinas Gymreig ifanc sy'n tyfu ac sy'n fywiog.

## MATH O FUDDSODDIAD
Cyllid Datblygu, ecwiti, neu gyllid llawn ymlaen. Mae CDC yn ceisio creu tai deiliadaeth gymysg, swyddfeydd ac unedau masnachol yng nghanol y ddinas, ar brif goridor trafnidiaeth gyhoeddus De Cymru.

## STATWS CYNLLUNIO
Wedi'i lleoli o fewn canol diffiniedig y ddinas, yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac Uwchgynllun Canol y Ddinas.



# PARC ST. MODWEN, CASNEWYDD



**Wedi'i leoli yn y porth i'r De, mae Parc St. Modwen Casnewydd yn cynnwys 460,000 troedfedd sgwâr o'r gofod logisteg a diwydiannol gorau, ac mae eisoes yn gartref i gwmnïau fel Amazon, Genpower a Mitel. Paratowyd 25 erw arall o'r Parc ac mae ar gael i ddatblygu c.650,000 troedfedd sgwâr arall.**

Ddwy filltir yn unig o Gyffordd 23a yr M4, mae Parc St. Modwen Casnewydd yn cynnig cysylltiadau ardderchog ar y ffyrdd, rheilffyrdd, yr awyr a'r môr ac mae wedi dod yn gyrchfan ddeniadol i fusnesau sy'n cymryd eu camau cyntaf, neu sydd angen mwy o le i gefnogi eu twf – yn enwedig ar ôl i'r tollau ar Bont Hafren ddiflannu.

Mae busnesau sy'n dewis gweithredu yng Nghasnewydd hefyd yn elwa o gael mynediad uniongyrchol i weithlu sy'n tyfu ar garreg eu drws, yn rhannol oherwydd adfywio preswyl arobryn Glan Llyn - yn union ger y Parc. Mae hyn yn cefnogi statws Casnewydd fel y ddinas sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. O fewn taith 30 munud mewn car, mae bron i 500,000 o bobl sy'n weithgar yn economaidd.

Adeiladwyd warysau Logisteg St. Modwen i'w Safon Swan sy'n arwain y diwydiant, gan gyflawni sgoriau cynaliadwyedd uchel, gan helpu busnesau i fod yn fwy effeithlon o ran ynni a chyrraedd eu targedau lleihau carbon eu hunain. Mae ei Barciau yn cynnig mannau gwyrdd, gydag amwynderau lles i weithwyr, tra hefyd yn gadael effaith gadarnhaol ar y cymunedau cyfagos, - gan wneud Parc St. Modwen Casnewydd yn lleoliad perffaith ar gyfer unrhyw fusnes sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n uchelgeisiol.



**Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.stmodwenlogistics.co.uk/**

Mae'r prosiect adfywio mawr hwn yn gweddnewid hen safle Gwaith Dur Llanwern yng Nghasnewydd yn barc busnes a chymunedol newydd sylweddol. Bydd y safle hefyd yn elwa o orsaf reilffordd yn y dyfodol agos, ac mae capasiti sylweddol yn parhau i fod ar gyfer buddsoddiad pellach, ar gyfer datblygiadau preswyl a masnachol.

### HYRWYDDWYR Y PROSIECT
St. Modwen Logistics


### SECTOR
Logisteg, Diwydiannol, Warws

### LLEOLIAD
Parc St. Modwen, Casnewydd, NP19 4RG

Trawsnewidiad £1bn hen safle 600 erw Gwaith Dur Llanwern. Yn creu: 4,000 o gartrefi newydd, 6,000 o swyddi newydd, Parc Busnes yn cynnig gofod swyddfa a diwydiannol, man agored cyhoeddus ac ystod o gyfleusterau cymunedol.



# SHAFTESBURY STREET – HEN SAFLE SAINSBURYS, CASNEWYDD



Mae cyfleoedd datblygu newydd ar gael yn Ninas Casnewydd, ac rydym yn awyddus i ddefnyddio ein harbenigedd wrth gynorthwyo partneriaid newydd gyda syniadau a gweledigaeth ar gyfer creu rhagor o gyfoeth a ffyniant yn yr ardal. Mae safle datblygu strategol rhydd-ddaliad allweddol wedi'i leoli yn Shaftesbury Street - cartref hen archfarchnad Sainsbury's. Mae'n gyfanswm o 6.65 erw (2.69 hectar) ac mewn safle amlwg iawn wrth y fynedfa i Gasnewydd, ar ymyl ogleddol Canol y Ddinas.

Mae'r safle yn elwa o fod yn agos at brif orsaf reilffordd Casnewydd, (taith gerdded pedair munud), a champws dinas Prifysgol De Cymru. Mae hefyd iddo gysylltiadau ffyrdd gwych gyda thraffordd yr M4 (cyffordd 26) - tua milltir i'r gogledd.

Defnyddiwyd y safle yn flaenorol ar gyfer archfarchnad mawr a pharcio ceir cysylltiedig. Mae'r perchnogion presennol wedi dymchwel yr hen adeiladau a'r strwythurau ac wedi unioni'r safle yn barod i'w ddatblygu. Yn amodol ar gynllunio, gallai gael ei ddefnyddio at amrywiaeth o ddibenion, megis gwesty, hamdden a phreswyl ac ati.

Yn edrych dros afon Wysg, tuag at ganol y ddinas, roedd gan y safle ganiatâd blaenorol ar gyfer prosiect defnydd cymysg dwys, a oedd yn cynnwys:

- Llety Myfyrwyr o hyd at 601 o ystafelloedd (i letya hyd at 1,000 o fyfyrwyr)
- 142 o fflatiau preswyl
- Gwesty gyda hyd at 84 ystafell wely
- Siop gyfleustra hyd at 406 metr sgwâr.





- Caffi/bwyty hyd at 186 metr sgwâr.
- Cyfleusterau iechyd hyd at 464 metr sgwâr.
- Maes parcio ar yr wyneb ac ar yr islawr
- Mannau cyhoeddus newydd, gan gynnwys llwybr ar lan yr afon

## HYRWYDDWYR Y PROSIECT
Fear Capital Investments

## SECTOR
Defnydd cymysg – Swyddfeydd, Preswyl, Gwesty, Manwerthu, Hamdden

## LLEOLIAD
Shaftesbury Street, Casnewydd

## STATWS CYNLLUNIO
Mae'r safle adfywio tir llwyd hwn wedi'i leoli yn yr ardal drefol, fel y'i diffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac Uwchgynllun Canol y Ddinas, lle caniateir amrywiaeth o ddefnyddiau.



# GOFOD SWYDDFEYDD TŶ ADMIRAL, CASNEWYDD



Wedi'i leoli wrth ymyl gorsaf reilffordd prif reilffordd y ddinas, mae Tŷ Admiral o fewn ardal Porth y Gogledd yng Nghasnewydd, reit yng nghanol y ddinas. Yn wreiddiol, fe'i hadeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer Admiral Insurance yn 2014, fel rhan o adfywiad Cwr yr Orsaf. Mae'n cynnwys adeilad nodedig o 80,000 troedfedd sgwâr ar saith llawr, mewn lleoliad gwych - ardal o Gasnewydd sy'n prysur ddod yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddi ac adfywio.

Mae ei ddyluniad yn ymgorffori atriwm canolog, i wneud y mwyaf o oleuni naturiol a hygyrchedd rhwng y gwahanol adain, ac mae ganddo loriau mawr hyblyg, gydag ystafelloedd cyfarfod ac ardaloedd toreithiog hael.

**Manyleb**

- Adeilad pencadlys 80,000
- Gyferbyn â gorsaf reilffordd Casnewydd
- Lloriau 12,883 troedfedd sgwâr
- Uchel-loriau
- Aerdymheru coiliau ffan 4 piben
- BREEAM yn dda iawn
- TPY sgôr B
- Lifftiau teithwyr 4 13 tt (1000kg)
- Atriwm canolog
- Derbynfa uchder dwbl
- Bwyty/siop goffi ar y llawr gwaelod
- Parcio islawr ar gyfer 230 o geir (1:362tr)
- Storfa feiciau ddiogel a chyfleusterau cawod
- Ardaloedd cyfarfod anffurfiol
- Trafnidiaeth gyhoeddus ragorol





Mae Tŷ Admiral yn elwa ar gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ardderchog sy'n ei gwneud yn lleoliad busnes a buddsoddi delfrydol. Mae o fewn cyrraedd hawdd i'r M4 trwy gyffyrdd 24-28, ac mae gwasanaethau trên cyflym rheolaidd wrth law i Fryste, Swindon, Reading a Paddington, Llundain. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith rheilffyrdd traws gwlad lleol yn darparu gwasanaeth rheolaidd i'r Cymoedd, ac ymhellach i Birmingham a Manceinion. Yn ogystal, mae'r orsaf fysiau sydd wedi'i hailddatblygu'n ddiweddar yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr i bob ardal o Gasnewydd a'r ardal gyfagos.

## HYRWYDDWYR Y PROSIECT

Admiral Insurance

## SECTOR

Swyddfeydd

## LLEOLIAD

Queensway, Casnewydd, Gwent NP20 4AG



| Enw | Maint | Perchennog/ Hyrwyddwr | Statws Cynllunio |
|---|---|---|---|
| Canolfan Cambrian – Cam II | 4ha | Scarborough Development Group | Yn dilyn datblygiad llwyddiannus adeilad Cwmni Yswiriant Admiral, mae'r safle hwn yn cynnig cyfle i ddatblygu cam II y cynllun defnydd masnachol a busnes cymysg. |
| Adeiladau Westgate | 0.27ha | Sector Preifat | Adeilad allweddol yn ardal Uwch-gynllun Craidd y ddinas. Mae'r adeilad yn un rhestredig Gradd II yr ystyrir ar hyn o bryd ei fod mewn perygl. |
| Rodney Parade | 3.62ha | Undeb Rygbi Cymru | Safle allweddol ar gyfer ailgychwyn ardal Uwchgynllun Glan-yr-Afon. |
| Godfrey Road yng nghefn Gorsaf Casnewydd | 2ha | Sector Preifat | Mae'r safle hon yng nghefn yr orsaf drenau a ailwampiwyd yn ddiweddar ac mae wedi'i ddyrannu yn y CDLl ar gyfer defnydd busnes a masnachol. |
| Shaftesbury Street – Hen Safle Sainsburys | 2.7ha | Fear Capital Investments | Nodwyd y safle adfywio ar gyfer 140 o unedau annedd yn y CDLl. |
| Glanfa Fictoria | 1.16ha | Iesis Ltd | Safle ailddatblygu ar lan yr afon wedi ei ddyrannu yn y CDLl ar gyfer datblygiad preswyl. Mae ganddo'r fantais o ganiatâd cynllunio ar gyfer 93 uned. Mae'r safle wedi ei ddyrannu yn y CDLl ar gyfer hyd at 130 o unedau. |
| Gweithfeydd Whitehead | 18.7ha | Whiteheads Development Company | Datblygiad defnydd cymysg wedi ei ddyrannu yn y CDLl gyda chaniatâd cynllunio amlinellol wedi ei roi ar gyfer cynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys oddeutu 500 o gartrefi, cartref gofal preswyl, ysgol gynradd a thafarn. |
| Safle hen Ysgol Uwchradd Hartridge a Jigsaw | 10.3ha | CDC | Dau safle wrth ochr ei gilydd wedi eu dyrannu yn y CDLl ar gyfer oddeutu 200 o unedau. |


Llanwern Regeneration Site





| Enw | Maint | Perchennog/ Hyrwyddwr | Statws Cynllunio |
|---|---|---|---|
| Safle Adfywio Llan-wern | 228.5 ha | St Modwen | Mae'r prosiect adfywio mawr hwn yn trawsnewid hen safle Gwaith Dur Casnewydd Llan-wern yn barc cymunedol a busnes newydd o bwys. Mae gan 4,000 o gartrefi newydd ganiatâd cynllunio amlinellol ac mae dros 800 eisoes wedi eu cwblhau. Mae'r ysgol gynradd gyntaf wedi ei chwblhau a bydd ail ysgol gynradd yn cael ei chyflwyno gyda yn hwyrach yn y datblygiad. Fe fydd y safle hefyd yn elwa o orsaf drenau yn y dyfodol agos. Mae nifer o unedau cyflogaeth hefyd wedi eu hadeiladu ar safle'r parc busnes gan gynnwys uned y cawr byd-eang Amazon. Ceir capasiti sylweddol ar gyfer buddsoddiad pellach ar gyfer datblygiadau preswyl a rhai masnachol. |
| Dyffryn | 38.5ha | Llywodraeth Cymru | Datblygiad strategol ar raddfa fawr wedi ei dyrannu yn y CDLl at ddefnydd B1, B2 a B8. |
| I'r Dwyrain o Queensway Meadows, De | 27ha | Llywodraeth Cymru | Mae cysylltiadau da i'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol gan y safle hwn ac mae'n lleoliad strategol rhagorol ar gyfer defnydd B1, B2 a B8. Mae'r safle wedi i ddyrannu ar gyfer dibenion cyflogaeth yn y CDLl. |
| Celtic Springs | 6ha | AWG | Parc busnes poblogaidd gyda chysylltiadau rhagorol â'r draffordd, wedi ei ddyrannu at ddefnydd B1 yn bennaf yn y CDLl. |
| Solutia | 43ha | Solutia | Mae cysylltiadau da i'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol gan y safle hwn ac mae'n lleoliad strategol rhagorol ar gyfer defnydd B1, B2 a B8 yn y CDLl. Mae'r safle yn agos at Bentref Chwaraeon Rhyngwladol sy'n rhoi posibilrwydd o ddefnydd hamdden iddo hefyd. |
| Europark Gwent | 15ha | Sector Preifat | Mae hwn yn safle dosbarthu wedi'i ddatblygu'n rhannol gydag 15 hectar ar ôl ar gyfer defnydd B8. |
| Tir cyfagos i'r A467, Ffordd y Siartwyr. | 2ha | Sector Preifat | Mae'r safle hwn wedi ei ddyrannu ar gyfer defnydd B1, B2 a B8 yn y CDLl. |
| Dociau Casnewydd | 206ha | ABP | Mae Dociau Casnewydd yn cynnig cyfle i ddatblygu cyflogaeth berthnasol i borthladdoedd. Mae'r safle yn borthladd gweithredol sy'n cael ei gefnogi yn y CDLl ar gyfer datblygiad cysylltiedig â phorthladdoedd. |
| Adeiladau'r Goron | 0.23ha | Sector Preifat | Prif safle i ail-ddechrau Uwchgynllun ardal Glan-yr-Afon – Cynigion am westy 123 gwely a thai ar y cam cynllunio. |

City of NEWPORT Dinas CASNEWYDD

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

I DRAFOD EICH GOFYNION, CYSYLLTWCH Â NI AR:

**CYFEIRIAD:**

Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Cyngor Dinas Casnewydd
NP20 4UR

**FFÔN**

+441633 656656

**E-GYSWLLT**

business.services@newport.gov.uk

www.cityofnewport.wales